# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| Teitl y Swydd | Addysgwr Carlam Cymru |
| Gwasanaeth | Ysgolion a Diwylliant |
| Graddfa | Athro |
| Pwrpas y Swydd | Rydym yn dymuno penodi athrawon sy'n gallu cynnig y pynciau canlynol:<br><br>**Cyfrwng Cymraeg:**<br>Almaeneg, Astudiaethau Crefyddol, Astudio'r Cyfryngau, Celf a Dylunio, Cerddoriaeth, Cymraeg Ail Iaith, Daearyddiaeth, Drama, Gwleidyddiaeth, Mathemateg, Mathemateg Bellach, Mathemateg Ychwanegol, Seicoleg, Technoleg.<br>**Cyfrwng Saesneg:**<br>Art and Design, Drama, Geography, German, Music, Religious Studies, Sociology, Technology, Welsh Second Language<br><br>Os ydych chi'n cynnig un o'r pynciau hyn, ewch ati i gwblhau'r cais. Os ydych chi'n cynnig pwnc nad yw wedi ei gynnwys yn y rhestr uchod, cysylltwch ag ymholiadau@e-sgol.cymru er mwyn mynegi eich diddordeb. Byddwn yn cadw eich manylion ar ffeil ac yn cysylltu os daw cyfle yn eich pwnc chi. |
| Lleoliad | Canolfan Rheidol/Gartref |
| Oriau Gwaith | 0.00 |
| Math o Gytundeb | Achlysurol |
| Teitl swydd y Rheolwr Llinell | Nia Jones Cydlynydd e-sgol |
| Cyfrifoldebau Goruchwylio / Rheoli | n/a |
| Atebolrwydd | Gofyn i weithio ar eich liwt eich hun ac i gynnal sesiynau adolygu wedi eu recordio ymlaen llaw. |
| Telerau Cytundebol sy'n Gysylltiedig â'r Swydd | Mae diogelu ac amddiffyn plant yn flaenoriaethau allweddol i ni. Ein nod yw cefnogi plant a phobl ifanc bregus er mwyn sicrhau eu bod mor ddiogel â phosibl. Rydym ni a'n sefydliadau addysgiadol yn cydnabod bod plant a phobl ifanc a'r hawl i gael eu hamddiffyn a byddwn yn cymryd camau i ddiogelu'u lles. Disgwylir i bob aelod staff a gwirfoddolwr rannu'r ymrwymiad hwn a byddwn yn gofyn am Wiriad Manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), sef y CRB gynt. |

## Dyletswyddau a chyfrifoldebau

**Cyflwyniad**

Mae Carlam Cymru yn parhau, gyda sesiynau adolygu ar-lein newydd yn cael eu creu ar gyfer myfyrwyr yn ystod tymor yr Hydref a thymor y Gwanwyn ym mhob blwyddyn academaidd.

Mae e-sgol yn awyddus i benodi ymarferwyr profiadol o bob rhan o Gymru mewn pynciau penodol – gweler isod - i greu a chyflwyno sesiynau adolygu ar-lein 45 munud o hyd a fydd ar gael i ysgolion ledled Cymru i gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu ymhellach eu dealltwriaeth o wahanol destunau/unedau o fewn cyrisau TGAU a Safon Uwch.

Bydd ymarferwyr o bob rhan o Gymru yn cael eu recriwtio gyda'r pwrpas penodol o adeiladu cronfa o adnoddau (recordiadau a ffeiliau atodol) yng nghyd-destun darparu adnoddau o ansawdd uchel y gall dysgwyr eu cyrchu'n hawdd ar wefan e-sgol/Carlam Cymru.

Gellir cael blas o'r sesiynau sydd eisoes wedi eu creu ar ein gwefan.

**Y Pynciau**

Rydym yn dymuno penodi athrawon sy'n gallu cynnig y pynciau canlynol:

**Cyfrwng Cymraeg:**
Almaeneg, Astudiaethau Crefyddol, Astudio'r Cyfryngau, Celf a Dylunio, Cerddoriaeth, Cymraeg Ail Iaith, Daearyddiaeth, Drama, Gwleidyddiaeth, Mathemateg, Mathemateg Bellach, Mathemateg Ychwanegol, Seicoleg, Technoleg.

**Cyfrwng Saesneg:**
Art and Design, Drama, Geography, German, Music, Religious Studies, Sociology, Technology, Welsh Second Language.

Os ydych chi'n cynnig un o'r pynciau hyn, ewch ati i gwblhau'r cais. Os ydych chi'n cynnig pwnc nad yw wedi ei gynnwys yn y rhestr uchod, cysylltwch ag ymholiadau@e-sgol.cymru er mwyn mynegi eich diddordeb. Byddwn yn cadw eich manylion ar ffeil ac yn cysylltu os daw cyfle yn eich pwnc chi.

**Y gofynion**

Fel un o Addysgwyr Carlam Cymru, gofynnir i chi ddewis testunau/unedau o'r cyrsiau TGAU a Safon Uwch rydych yn eu dysgu, a pharatoi'r cynnwys/adnoddau ar gyfer cyfres o sesiynau adolygu 45 munud o hyd. Bydd angen amlinellu'r sgiliau a'r wybodaeth allweddol a fydd yn atgyfnerthu dealltwriaeth y dysgwyr o'r pwnc.

Mae'n hanfodol bod athrawon sy'n ymuno â'r pŵl o Addysgwyr Carlam Cymru yn meddu ar:

- ddealltwriaeth drylwyr o holl ofynion y cyrsiau TGAU a/neu Safon Uwch maen nhw'n eu dysgu
- y gallu i gyfathrebu'n effeithiol
- y gallu i grynhoi pwyntiau allweddol y cynnwys dan sylw
- y gallu i gynnal sesiynau sy'n cadw diddordeb myfyrwyr
- y gallu i greu adnoddau gweledol deniadol
- sgiliau trefnu a dull rhagweithiol o weithio
- y gallu i gydweithio a chyfathrebu'n effeithiol â swyddogion e-sgol

**Dymunol:**

- profiad o ddysgu ar-lein
- profiad o ddefnyddio gwahanol blatfformau TG

**Amodau a thâl**

Bydd angen i bob ymarferydd gymryd rhan mewn sesiwn gwybodaeth a hyfforddiant a ddarperir gan swyddogion e-sgol. Cynhelir y cyfarfod hwn ar-lein trwy Microsoft Teams.

Telir Ymarferwyr Carlam Cymru ar sail yr amodau tâl athrawon sy'n berthnasol i athrawon cyflenwi a delir fesul awr. Caiff mwy o fanylion eu rhannu am y nifer o oriau a delir yn y sesiwn gwybodaeth a hyfforddiant.

Bydd e-sgol yn monitro ansawdd y sesiynau a'r adnoddau ac yn cynnal perthynas gwaith parhaol gyda'r ymarferwyr llwyddiannus.

**Ymholiadau -** Rhaid anfon unrhyw ymholiadau at ymholiadau@e-sgol.cymru. Byddwn yn gwneud ein gorau i ymateb i unrhyw ymholiadau o fewn 24 awr.

# Manyleb Person

| Gofynnol | | |
|---|---|---|
| Cymwysterau Academaidd / Proffesiynol / Technegol / Galwedigaethol | Profiad Dysgu yn y pwnc penodol<br>Aelod EWC | |
| Sgiliau Ieithyddol Cymraeg | Gwrando/Siarad: **Lefel 5**<br>Darllen: **Lefel 5**<br>Ysgrifennu: **Lefel 5** | Rhaid cwrdd a'r sgiliau ieithyddol Cymraeg a nodwyd ar apwyntiad |
| Sgiliau Ieithyddol Saesneg | Gwrando/Siarad: **Lefel 5**<br>Darllen: **Lefel 5**<br>Ysgrifennu: **Lefel 5** | Rhaid cwrdd a'r sgiliau ieithyddol Saesneg a nodwyd ar apwyntiad |
| Sgiliau Ymarferol / Personol | • sgiliau trefnu ardderchog<br>• y gallu i flaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun, gweithio heb oruchwyliaeth uniongyrchol ac o dan eich menter eich hun | |
| Profiad Hanfodol | n/a | |
| Hyfforddiant/addysg y mae'n ofynnol eu cyflawni/mynd ati i'w cyflawni ar gyfer y swydd | n/a | |

| Dymunol | |
|---|---|
| Cymwysterau / Hyfforddiant | |
| Sgiliau Ymarferol / Personol | |

# Job Description

| | |
|---|---|
| Post Name | Carlam Cymru teacher |
| Service | Schools and Culture |
| Grade | Teacher |
| Job Purpose | We wish to appoint teachers who can offer the following subjects:<br><br>**Welsh-medium:**<br><br>Almaeneg, Astudiaethau Crefyddol, Astudio’r Cyfryngau, Celf a Dylunio, Cerddoriaeth, Cymraeg Ail Iaith, Daearyddiaeth, Drama, Gwleidyddiaeth, Mathemateg, Mathemateg Bellach, Mathemateg Ychwanegol, Seicoleg, Technoleg<br><br>**English-medium:**<br><br>Art and Design, Drama, Geography, German, Music,<br>Religious Studies, Sociology, Technology, Welsh Second Language.<br><br>If you offer one of these subjects, please proceed to the online application. If you teach a subject not included in the above list, please contact our enquiries mailbox: ymholiadau@e-sgol.cymru to express an interest. We will keep your details on file and get in touch if a vacancy arises in your subject. |
| Location | Canolfan Rheidol/Home |
| Hours of Work | Zero hours |
| Type of Contract | Casual |
| Line Managers Job Title | Nia Jones Cydlynydd e-sgol |
| Supervisory/Managerial Responsibilities | n/a |
| Accountability | Required to work on own initiative and deliver pre-recorded revision sessions |
| Contractual Terms Associated with the Post | Safeguarding and child protection are key priorities for us. We aim to support vulnerable children and young people to ensure they are as safe as they can possibly be. We and our educational establishments acknowledge that children and young people have a right to protection and will take action to safeguard their welfare. Each member of staff and volunteer is expected to share this commitment, and we will require an Enhanced Check by the Disclosure and Barring Service (DBS), formerly CRB. |

## Duties and Responsibilities

**Introduction**

Carlam Cymru is continuing, with new revision sessions being created for students during the Autumn and Spring terms of each academic year.

e-sgol is keen to appoint experienced practitioners in specific subjects – see below - from across Wales to create and deliver 45-minute online revision sessions which will be available to schools across Wales to support learners to further develop their understanding of different topics/units within GCSE and A level courses.

Practitioners from across Wales will assist us with the specific purpose of building a bank of resources (recordings and accompanying files) within the context of delivering high quality resources that learners can easily access on the e-sgol/Carlam Cymru website.

You can get a flavour of the sessions that have already been created by going to our website.

**The Subjects**

**Welsh-medium:**

Almaeneg, Astudiaethau Crefyddol, Astudio'r Cyfryngau, Celf a Dylunio, Cerddoriaeth, Cymraeg Ail Iaith, Daearyddiaeth, Drama, Gwleidyddiaeth, Mathemateg, Mathemateg Bellach, Mathemateg Ychwanegol, Seicoleg, Technoleg

**English-medium:**

Art and Design, Drama, Geography, German, Music, Religious Studies, Sociology, Technology, Welsh Second Language.

If you offer one of these subjects, please proceed to the online application. If you teach a subject not included in the above list, please contact our enquiries mailbox: ymholiadau@e-sgol.cymru to express an interest. We will keep your details on file and get in touch if a vacancy arises in your subject.

**The requirements**

As a Carlam Cymru Educator you will be asked to select topics/units from the GCSE and/or A level courses that you teach and prepare the content/resources for a series of 45-minute revision sessions. You will need to outline the key skills and knowledge that will reinforce learners' understanding of the subject.

It is essential that teachers who join the pool of Carlam Cymru Educators have:

- a thorough understanding of all the requirements of the GCSE and/or A level courses that they teach
- the ability to communicate effectively
- the ability to summarise key points in the content being covered
- the ability to run sessions that keep students' attention
- the ability to create engaging visual resources
- organisational skills and a proactive way of working
- the ability to collaborate and communicate effectively with e-sgol officers.

**Desirable**

- experience of online teaching
- experience of using various IT platforms

**Pay and conditions**

All practitioners will need to engage in an information and training session provided by e-sgol officers. This meeting will be facilitated through Microsoft Teams.

Carlam Cymru Educators are paid on the basis of pay conditions for supply teachers at an hourly rate. Further details about the number of hours paid per session delivered at the Information and Training Session.

e-sgol will monitor the quality of the resources and live events through ongoing working relationships with the successful practitioners.

**Queries** - Any queries must be sent to ymholiadau@e-sgol.cymru and we will endeavour to respond to queries within 24 hours.

# Person Specification

| Essential | | |
|---|---|---|
| Academic / Professional / Technical / Vocational Qualifications | Experience in teaching specific subject<br>EWC member | |
| Welsh Linguistic Skills | Listening/Speaking: **Level 5**<br>Reading: **Level 5**<br>Writing **Level 5** | The Welsh linguistic skills noted are required on appointment |
| English Linguistic Skills | Listening/Speaking: **Level 5**<br>Reading: **Level 5**<br>Writing **Level 5** | The English linguistic skills noted are required on appointment |
| Practical and personal skills | • Excellent organisational skills<br>• Ability to prioritise own workload, work without direct supervision and under own initiative. | |
| Required Experience | n/a | |
| Training/education required to be undertaken for the post/worked towards | n/a | |

| Desirable | |
|---|---|
| Qualifications / Training | |
| Practical / Personal Skills | |